



# Deddf Yr Undebau Llafur (Cymru) 2017

2017 dccc 4

Nodiadau Esboniadol

# Trade Union (Wales) Act 2017

2017 anaw 4

Explanatory Notes

£6.00

# DEDDF YR UNDEBAU LLAFUR (CYMRU) 2017

## NODIADAU ESBONIADOL

### RHAGARWEINIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Ddeddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Gorffennaf 2017 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 07 Medi 2017. Fe'u lluniwyd gan Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru i gynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf.
2. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohono. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf. Pan fo adran o'r Ddeddf yn hunanesboniadol ac nid oes angen unrhyw esboniad neu sylw pellach, nis rhoddir.

### TROSOLWG O'R DDEDDF

3. Mae Deddf yr Undebau Llafur 2016 (*Trade Union Act 2016* (c. 15)) ("Deddf 2016") yn mewnosod darpariaethau yn Neddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (*Cydgrynhau*) 1992 (*Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992* (c. 52)) ("Deddf 1992"). Mae'r Ddeddf hon yn diwygio darpariaethau Deddf 1992 a fewnosodwyd gan adrannau 3, 13, 14 a 15 o Ddeddf 2016 er mwyn eu datgymhwysio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus penodol a ddarperir gan awdurdodau cyhoeddus datganoledig Cymreig, neu'n ymwneud yn fwy cyffredinol â gweithrediadau awdurdodau o'r fath.
4. Mae'r Ddeddf hefyd yn gwahardd awdurdodau cyhoeddus datganoledig Cymreig rhag defnyddio gweithwyr a gyflenwir gan fusnes cyflogaeth (a elwir yn gyffredin yn weithwyr asiantaeth), i gyflawni dyletswyddau staff sy'n cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol swyddogol.

### CEFNDIR POLISI

5. Yn ystod hynt y Bil a ddaeth yn Ddeddf 2016 drwy Senedd y Deyrnas Unedig, ystyriodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, a'i wrthwynebu, gan atal cydsyniad i Lywodraeth y DU ddeddfu ar gymalau sy'n ymwneud ag awdurdodau cyhoeddus Cymreig. Roedd y darpariaethau y gwnaeth y Cynulliad Cenedlaethol atal cydsyniad ar eu cyfer yn ymwneud â throthwy cefnogaeth cyffredinol ar gyfer 'gwasanaethau cyhoeddus pwysig', amser cyfleuster a threfniadau ar gyfer didynnu taliadau tanysgrifio i undebau drwy'r gyflogres.

# TRADE UNION (WALES) ACT 2017

---

## EXPLANATORY NOTES

### INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the Trade Union (Wales) Act 2017 which was passed by the National Assembly for Wales on 18 July 2017 and received Royal Assent on 07 September 2017. They have been prepared by the Education and Public Services Group of the Welsh Government to assist the reader of the Act.
2. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act but are not part of it. They are not meant to be a comprehensive description of the Act. Where a section of the Act is self-explanatory and does not seem to require any further explanation or comment, none is given.

### OVERVIEW OF THE ACT

3. The Trade Union Act 2016 (c.15) ("the 2016 Act") inserts provisions in the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992 (c.52) ("the 1992 Act"). This Act amends the provisions of the 1992 Act inserted by sections 3, 13, 14 and 15 of the 2016 Act so as to disapply them in so far as they relate to certain public services provided by devolved Welsh public authorities, or relate more generally to the operations of such authorities.
4. The Act also prohibits devolved Welsh public authorities from using workers supplied by an employment business (commonly referred to as agency workers), to cover the duties of staff engaged in official industrial action.

### POLICY BACKGROUND

5. During the passage through the United Kingdom Parliament of the Bill that became the 2016 Act the National Assembly for Wales considered and opposed a Legislative Consent Motion, withholding consent for the UK Government to legislate on clauses pertaining to Welsh public authorities. The provisions for which the National Assembly withheld consent related to an overall support threshold for 'important public services', facility time and check-off arrangements.

6. Mae Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017 yn datgymhwysu adrannau 3, 13, 14 a 15 o Ddeddf 2016 fel y maent yn gymwys i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Y diben yw dileu'r darpariaethau y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried eu bod yn groes i'w dull o weithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol wrth reoli'r sector cyhoeddus, er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r dull partneriaethau cymdeithasol yn golygu bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau datganoledig Cymreig, a gweision sifil a gweithwyr y cyrff hynny, yn gweithio ar y cyd i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.
7. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y bydd effaith Deddf yr Undebau Llafur 2016 yn un a fydd yn effeithio ar ei dull partneriaethau cymdeithasol, yn arwain at berthnasau mwy gwrrthdrawiadol rhwng cyflogwyr a gweithwyr, ac yn tanseilio'r ffordd y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu yn y pen draw. Mae llwyddiant y model o weithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol yn dibynnu ar gydbwysedd priodol yn y perthnasau rhwng y partneriaid ac yn benodol rhwng undebau llafur a chyflogwyr.
8. Mae'r Deddf yn gwahardd awdurdodau cyhoeddus datganoledig Cymreig rhag defnyddio gweithwyr asiantaeth i gyflawni dyletswyddau staff sy'n cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol swyddogol. Y bwriad yw diogelu'r model partneriaethau cymdeithasol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus rhag arferion a allai danseilio perthnasau diwydiannol.

## CEFNDIR DEDDFWRIAETHOL

9. Mae'r brif ddeddfwriaeth ar undebau llafur a chymdeithasau cyflogwyr wedi ei chynnwys yn Neddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhau) 1992 (*Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992* (c. 52)). Yn hanesyddol, roedd undebau llafur yn cael eu trin fel cyrff anghyfreithlon nad oeddynt er budd y cyhoedd. O dan y gyfraith gyffredin, ystyriwyd bod gweithiwr a oedd yn ymwneud â gweithredu diwydiannol yn euog o dorri ei gytundeb cyflogaeth. Roedd undeb llafur a oedd yn cymhell gweithredu diwydiannol yn cyflawni camwedd y gellir dwyn achos yn ei gylch sy'n groes i'r athrawiaeth ar lesteirio masnach. Yn sgil diwygiadau undebau llafur rhwng yr 1800au a'r 1900au, cyflwynwyd deddfwriaeth a oedd yn rhoi "imiwneddau statudol" penodol ac a oedd yn drech na statws sefydledig y gyfraith gyffredin.
10. Cafodd y ddeddfwriaeth honno ei chydgrynhau yn Neddf 1992 sy'n diffinio undebau llafur ac sy'n nodi'r fframwaith (gan gynnwys hawliau cyfreithiol a dyletswyddau cyfreithiol) y caint weithredu oddi tano gan gynnwys ym mha amgylchiadau y caniateir ymgymryd â gweithredu diwydiannol.
11. Mae Deddf 2016 yn diwygio Deddf 1992 i wneud darpariaethau (ymhlith pethau eraill) ynghylch y gofynion pleidleisio ar gyfer gweithredu diwydiannol swyddogol ac yn mewnosod darpariaethau ynghylch amser cyfleuster yn y sector cyhoeddus a'r amgylchiadau pan ganiateir i gyflogwyr y sector cyhoeddus ddidynnu taliadau tansgrifio i undeb llafur o gyflog eu gweithwyr. Mae'r Deddf hon yn datgymhwysu'r darpariaethau hynny i'r graddau y maent yn ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan awdurdodau cyhoeddus datganoledig Cymreig, neu'n ymwneud yn fwy cyffredinol â gweithrediadau awdurdodau o'r fath.

6. The Trade Union (Wales) Act 2017 disapplies sections 3, 13, 14 and 15 of the 2016 Act as they apply to public services in Wales. The purpose is to remove provisions that the Welsh Government considers contrary to its social partnership approach to managing the public sector so as to protect the continued delivery of public services in Wales. Social partnership involves the Welsh Government and devolved Welsh public authorities, and civil servants and employees of those bodies, working collaboratively to deliver public services.
7. The Welsh Government considers that the effect of the Trade Union Act 2016 will affect its social partnership approach lead to more confrontational relationships between employers and employees, and ultimately undermine public service delivery. The success of the social partnership model relies on an appropriate balance in the relationships between the partners and particularly between trade unions and employers.
8. The Act prohibits devolved Welsh public authorities from using agency workers to cover the duties of staff engaged in official industrial action. The intention is to protect the social partnership model of providing public services from practices that could undermine industrial relations.

## **LEGAL BACKGROUND**

9. The chief legislation on trade unions and employers' association is in the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992 (c.52). Historically trade unions were treated as illegal and contrary to public interest. At common law a worker who engaged in industrial action was considered to be in breach of his or her employment contract. A trade union inducing industrial action was committing an actionable tort contrary to the doctrine on restraint of trade. Trade union reforms between the 1800s and 1900s introduced legislation which conferred certain "statutory immunities" and overrode the established common law position.
10. That legislation was consolidated in the 1992 Act which defines trade unions and sets out the framework (including legal rights and duties) under which they may operate including the circumstances in which industrial action may be undertaken.
11. The 2016 Act amends the 1992 Act to make provisions (among other things) about the balloting requirements for official industrial action and inserts provisions about facility time in the public sector and the circumstances in which trade unions subscriptions may be deducted by public sector employers from their worker's wages. This Act disapplies those provisions in so far as they relate to public services provided by devolved Welsh public authorities, or relate more generally to the operations of such authorities.

## **SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU**

### **Adran 1 - Diwygiadau i Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992**

*Dileu cyfyngiadau ar ddidynnu taliadau tansysgrifio i undeb llafur o gyflogau yn y sector cyhoeddus*

12. Mae **adran 1(2)** yn darparu nad yw adran 116B o Ddeddf 1992 (a fewnosodwyd gan adran 15 o Ddeddf 2016), sy'n cyfyngu ar yr amgylchiadau pan ganiateir didynnu taliadau tansysgrifio i undeb llafur o gyflogau gweithwyr yn y sector cyhoeddus, yn gymwys i awdurdodau cyhoeddus datganoledig Cymreig.
13. Mae rhai cyflogwyr yn didynnu tâl tansysgrifio i undeb llafur o gyflogau eu gweithwyr (cyfeirir at hyn fel didynnu taliadau tansysgrifio i undebau drwy'r gyflogres). Mae adran 116B yn gosod cyfyngiadau fel na chaniateir didyniadau o'r fath oni bai bod gan weithwyr yr opsiwn i dalu eu taliadau tansysgrifio i undeb drwy gyfrwng arall, a bod trefniadau wedi eu gwneud i'r undeb wneud taliadau rhesymol i'r cyflogwr o ran gwneud y didyniadau.

*Datgymhwysyo rheoliadau ynghylch amser cyfleuster i awdurdodau cyhoeddus Cymreig*

14. Mae **adran 1(3)** yn darparu nad yw adrannau 172A a 172B o Ddeddf 1992 (fel y'u mewnosodwyd gan adrannau 13 a 14 o Ddeddf 2016) yn gymwys i awdurdodau cyhoeddus datganoledig Cymreig.
15. Mae adrannau 168 i 172 o Ddeddf 1992 yn gwneud darpariaeth ynghylch "amser cyfleuster", sy'n amser i ffwrdd a ganiateir gan weithwyr at ddiben cyflawni dyletswyddau undebau llafur. Mewnosodwyd adrannau 172A a 172B, sy'n rhoi pwerau i Weinidog y Goron wneud rheoliadau ynghylch amser cyfleuster, gan adrannau 13 a 14 o Ddeddf 2016.
16. Caiff rheoliadau a wneir o dan adran 172A ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr y sector cyhoeddus gyhoeddi gwybodaeth am faint o amser cyfleuster a ganiateir. Mae adran 172B yn darparu y caiff Gweinidog y Goron, pan fo'n ystyried ei bod yn briodol, ac wrth roi sylw i faterion yn adran 172B(1), wneud rheoliadau i gapio'r ganran o gyfanswm bil tâl y cyflogwyr sy'n cael ei wario ar dalu swyddogion undebau am amser cyfleuster ac i gyfyngu ar hawliau swyddogion undebau i amser cyfleuster drwy ddiwygio darpariaethau yn adran 172B(4). Ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan adran 172B oni fo'n dair blynedd ers i'r rheoliadau cyntaf o dan adran 172A ddod i rym.

*Datgymhwysyo'r trothwy o gefnogaeth 40% o'r aelodau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus pwysig mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus Cymreig*

17. Mae **adran 1(4)** yn darparu na chaiff rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n diffinio "gwasanaethau cyhoeddus pwysig" at ddiben adran 226 o Ddeddf 1992 gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau cyhoeddus datganoledig Cymreig.

## **COMMENTARY ON SECTIONS**

### **Section 1 – Amendments to the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992**

*Removing restrictions on deduction of union subscriptions from wages in the public sector*

12. **Section 1(2)** provides that section 116B of the 1992 Act (inserted by section 15 of the 2016 Act), which restricts the circumstances in which union subscriptions may be deducted from the wages of workers in the public sector, does not apply to devolved Welsh public authorities.
13. Some employers deduct trade union subscription from the wages of their workers (referred to as “check off”). Section 116B imposes restrictions so that such deductions may not be made unless workers have the option to pay their union subscriptions by other means, and arrangements have been made for the union to make reasonable payments to the employer in respect of the making of the deductions.

*Disapplies regulations about facility time to Welsh public authorities*

14. **Section 1(3)** provides that sections 172A and 172B of the 1992 Act (as inserted by sections 13 and 14 of the 2016 Act) do not apply to devolved Welsh public authorities.
15. Sections 168 to 172 of the 1992 Act make provision about “facility time”, which is time off permitted by employees for the purpose of carrying out trade union duties. Sections 13 and 14 of the 2016 Act inserted sections 172A and 172B which confer powers on a Minister of the Crown to make regulations about facility time.
16. Regulations made under section 172A may require public sector employers to publish information about the amount of facility time allowed. Section 172B provides that where a Minister of the Crown considers it appropriate to do so, and having regard to matters in section 172B(1), he or she may make regulations to cap the percentage of the employers’ total pay bill spent on paying union officials for facility time and to restrict the rights of union officials to facility time by amending provisions in section 172B(4). Regulations under section 172B may only be made three years after the first regulations under section 172A come into force.

*Disapplies 40% ballot threshold for important public services in relation to Welsh public services*

17. **Section 1(4)** provides that regulations made by the Secretary of State which define “important public services” for the purpose of section 226 of the 1992 Act may not include services provided by devolved Welsh public authorities.

18. Mae adran 219 o Ddeddf 1992 yn darparu bod camau penodol a gymerir wrth ystyried neu fwrw ymlaen ag anghydfod masnachol wedi eu diogelu gan na ellir dwyn achos o gamwedd yn eu cylch. Mae adran 226 yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caiff undeb llafur ymgymryd â gweithredu diwydiannol yn y fath fod fel ei fod yn denu imiwnedd o dan adran 219. Mae hynny'n cynnwys gofyniad bod yn rhaid cynnal pleidlais o aelodau'r undeb. Rhaid i o leiaf 50% (mwyafrif syml) o'r rheini sy'n pleidleisio fod o blaid gweithredu diwydiannol.
19. Mae Deddf 2016 yn diwygio adran 226 i gynnwys gofynion pellach y mae'n rhaid eu bodloni cyn bod yr imiwnedd statudol yn adran 219 yn gymwys. Mae adran 226(2)(iia) (a fewnosodwyd gan adran 2 o Ddeddf 2016) yn darparu bod yn rhaid i o leiaf 50% (mwyafrif syml) o'r rheini sydd â'r hawl i bleidleisio fwrw pleidlais; a phan fo'r rheini sydd â'r hawl i bleidleisio yn ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus pwysig, mae adran 226(2B) (a fewnosodwyd gan adran 3 o Ddeddf 2016) yn darparu bod yn rhaid i o leiaf 40% ohonynt bleidleisio o blaid gweithredu diwydiannol.
20. Felly, mae adran 226 yn ei gwneud yn ofynnol bellach fod yn rhaid i o leiaf 50% o'r holl aelodau sydd â'r hawl i bleidleisio arfer eu hawl i bleidleisio, a bod yn rhaid i o leiaf 50% o'r rheini sy'n pleidleisio fwrw pleidlais o blaid gweithredu. Er enghraifft, pan fo'r anghydfod yn effeithio ar 1000 o aelodau undeb, mae hynny'n golygu bod yn rhaid i o leiaf 500 o aelodau bleidleisio a bod yn rhaid i o leiaf 251 ohonynt bleidleisio o blaid gweithredu.
21. Mae adran 226(2B) yn gosod gofyniad pellach pan fo aelodau yn ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus pwysig sydd wedi eu diffinio mewn rheoliadau a wneir o dan adran 226(2D) gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Rhaid i o leiaf 40% o'r aelodau hynny sydd â'r hawl i bleidleisio fwrw pleidlais o blaid gweithredu diwydiannol. O ran yr enghraifft uchod, byddai angen i o leiaf 400 o aelodau bleidleisio o blaid gweithredu i'r imiwnedd statudol yn adran 219 fod yn gymwys.
22. Mae adran 226(2)(iia) yn gymwys o ran Cymru ond mae adran 1(2) o'r Ddeddf yn darparu nad yw is-adrannau 226(2B) i (2F) yn gymwys i awdurdodau datganoledig Cymreig.

*Diffiniad o awdurdodau datganoledig Cymreig*

23. Mae **adran 1(5)** yn diffinio'r awdurdodau cyhoeddus Cymreig y mae'r Ddeddf yn gymwys iddynt drwy gyfeirio at y diffiniad o "devolved Welsh authority" yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (a fewnosodwyd gan adran 4 o Ddeddf Cymru 2017). Yn yr adran honno, ystyr "devolved Welsh authority" yw awdurdod cyhoeddus a bennir yn Atodlen 9A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 neu sy'n arfer swyddogaethau sydd (a) yn arferadwy o ran Cymru yn unig a (b) yn swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â materion a gedwir yn ôl. Caniateir i Atodlen 9A gael ei diwygio gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor a gymeradwyir gan y Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

18. Section 219 of the 1992 Act provides that certain actions taken in contemplation or furtherance of a trade dispute are protected in that they are not actionable in tort. Section 226 sets out the requirements which must be met before industrial action may be taken by a trade union in such a way as to attract the immunity under section 219. This includes a requirement that there must be a ballot of the union's members. At least 50% (a simple majority) of those who vote in the ballot must vote in support of taking industrial action.
19. The 2016 Act amended section 226 to include further requirements that must be met before the statutory immunity in section 219 applies. Section 226(2)(iia) (inserted by section 2 of the 2016 Act) provides that at least 50% (a simple majority) of those entitled to vote must vote; and section 226(2B) (inserted by section 3 of the 2016 Act) provides that, where those entitled to vote are engaged in providing important public services, at least 40% of them must vote in support of taking industrial action.
20. Section 226, therefore, now requires that at least 50% of all members entitled to vote must exercise their right to vote, and at least 50% of those who vote must vote in support of taking action. As an example, where 1000 union members are affected by the dispute, this means that at least 500 members must vote and at least 251 must vote in support of taking action.
21. Section 226(2B) imposes a further requirement where the members are engaged in providing important public services which are as defined in regulations made under section 226(2D) by the Secretary of State. At least 40% of those members entitled to vote must vote in support of taking industrial action. In the above example, at least 400 members would need to vote in support for the statutory immunity in section 219 to apply.
22. Section 226(2)(iia) applies in relation to Wales but section 1(2) of the Act provides that subsections 226(2B) to (2F) do not apply to devolved Welsh authorities.

*Definition of devolved Welsh authorities*

23. **Section 1(5)** defines the Welsh public authorities to which the Act applies by reference to the definition of "a devolved Welsh authority" in section 157A of the Government of Wales Act 2006 (inserted by section 4 of the Wales Act 2017). In that section a "devolved Welsh authority" means a public authority specified in Schedule 9A to the Government of Wales Act 2006 or that exercises functions that (a) are only exercisable in relation to Wales and (b) are wholly or mainly functions that do not relate to reserved matters. Schedule 9A may be amended by Order in Council approved by Parliament and the National Assembly for Wales.

## Adran 2 - Gwaharddiad ar ddefnyddio gweithwyr dros dro i gymryd lle staff yn ystod gweithredu diwydiannol

24. Mae adran 2 yn gwahardd awdurdodau cyhoeddus datganoledig Cymreig rhag cyflogi gweithiwr a gyflenwir gan fusnes cyflogaeth (a elwir yn gyffredin yn "weithwyr asiantaeth") i gyflawni dyletswyddau arferol aelod o'i staff sy'n cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol, neu aelod o staff sy'n cyflawni dyletswyddau'r gweithiwr sy'n cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol.
25. Rhaid i'r gweithredu diwydiannol dan sylw fod yn "swyddogol" - sef cysyniad a ddiffinnir drwy gyfeirio at adran 237 o Ddeddf 1992.
26. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn effeithio ar y gyfraith bresennol o ran ymddygiad busnesau cyflogaeth a nodir yn Neddf Asiantaethau Cyflogi 1973 neu Reoliadau Ymddygiad Asiantaethau Cyflogi a Busnesau Cyflogaeth 2003 (O.S. 2003/3319) a wnaed o dan adran 5 o'r Ddeddf honno. (Mae Rheoliad 7 o Reoliadau 2003 yn gwahardd busnesau cyflogaeth rhag cyflenwi gweithwyr yn lle staff sy'n cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol).

## COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

27. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn: <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?Id=16591&Opt=0>

Cyfnod	Dyddiad
Cyflwynwyd	16 Ionawr 2017
Cyfnod 1 - Dadl	9 Mai 2017
Cyfnod 2 - Pwyllgor Craffu - ystyried y gwelliannau	15 Mehefin 2017
Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn - ystyried y gwelliannau	11 Gorffennaf 2017
Cyfnod 4 - Cymeradwywyd gan y Cynulliad	18 Gorffennaf 2017
Y Cydsyniad Brenhinol	7 Medi 2017

© Hawlfraint y Goron 2017

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

## **Section 2 – Prohibition on using temporary workers to cover industrial action**

24. Section 2 prohibits devolved Welsh public authorities from hiring a worker supplied by an employment business (commonly known as “agency workers”) to cover the normal duties of a member of its staff undertaking industrial action, or a member of staff who is covering the duties of the worker taking industrial action.
25. The industrial action in question must be “official” - a notion that is defined by reference to section 237 of the 1992 Act.
26. This provision does not affect existing law on the conduct of employment businesses set out in the Employment Agencies Act 1973 or the Conduct of Employment Agencies and Employment Businesses Regulations 2003 (S.I. 2003/3319) made under section 5 of that Act. (Regulation 7 of the 2003 Regulations prohibits employment businesses from supplying workers to cover industrial action).

## **RECORD OF PROCEEDINGS IN NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

27. The following table sets out the dates for each stage of the Act’s passage through the National Assembly for Wales. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the National Assembly for Wales’ website at:  
<http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=16591&Opt=0>

<b>Stage</b>	<b>Date</b>
Introduced	16 January 2017
Stage 1 - Debate	9 May 2017
Stage 2 Scrutiny Committee – consideration of amendments	15 June 2017
Stage 3 Plenary - consideration of amendments	11 July 2017
Stage 4 Approved by the Assembly	18 July 2017
Royal Assent	7 September 2017



part of Williams Lea Tag

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), part of Williams Lea Tag, ac ar  
gael o:

**Arlein**

[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)

**Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost**

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebion ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070

Archebion ffacs: 0333 202 5080

E-bost: [customer.services@tso.co.uk](mailto:customer.services@tso.co.uk)

Ffôn Testun: 0333 202 5077

**TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill**

Published by TSO (The Stationery Office), part of Williams Lea Tag,  
and available from:

**Online**

[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)

**Mail, Telephone, Fax & E-mail**

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070

Fax orders: 0333 202 5080

E-mail: [customer.services@tso.co.uk](mailto:customer.services@tso.co.uk)

Textphone: 0333 202 5077

**TSO@Blackwell and other Accredited Agents**

ISBN 978-0-348-11326-6

9 780348 113266